2008-09

Hydref 2009

Awduron: Rob Powell, Anthony Barrett, Gilbert Lloyd a KPMG Cyf: 620A2009

# Llythyr Blynyddol ar gyfer 2008-09

# Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Crynodeb** | 4 |
| **Adroddiad yr Archwilydd Penodedig** | |
| Mae'r Awdurdod wedi cydymffurfio â'r gofynion o ran cyflwyno adroddiadau ariannol a chofnodi gwelliant o ran perfformiad | 5 |
| Roedd gan yr Awdurdod drefniadau priodol i weinyddu a chyflwyno adroddiad ar faterion ariannol a sicrhau gwerth am arian yn ei ddefnydd o adnoddau yn 2008-09 | 5 |
| Mae Cynllun Gwella 2009-10 yr Awdurdod yn bodloni gofynion statudol ac yn rhoi darlun cytbwys o'i berfformiad yn ystod 2008-09 | 6 |
| **Adroddiad y Rheolwr Cydberthynas** | |
| Mae'r Awdurdod Tân ac Achub wedi gwneud cynnydd o ran mynd i'r afael ag amrywiaeth o risgiau a bellach mae angen iddo fynd i'r afael â meysydd blaenoriaeth y cytunwyd arnynt ac a nodir yn Asesiad Risg ar y Cyd eleni | 8 |
| Mae'r Awdurdod wedi gwneud cynnydd o ran lleihau lefelau'r risg weithredol a nodwyd gan y Tîm Asesu Cymheiriaid ac mae'n gweithio i wella ei ymateb gweithredol | 8 |
| Mae'r Awdurdod wedi gwneud cynnydd o ran lleihau'r lefel o risg a nodwyd yn yr Asesiad Risg ar y Cyd diwethaf | 9 |
| **Atodiadau** | |
| Rôl yr Archwilydd Penodedig a'r Rheolwr Cydberthynas ac amcangyfrif o ffioedd | 11 |
| Meini prawf ar gyfer asesu trefniadau'r Awdurdod yn ystod 2008-09 ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau | 12 |
| Adroddiad yr Archwilydd ar y trefniadau ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau yn ystod 2008-09 | 13 |
| Archwiliad o Gynllun Gwella 2009-10 | 14 |
| Argymhellion i'r Archwilydd Cyffredinol a Gweinidogion Cymru | 16 |

## Statws yr adroddiad hwn

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio ac Arolygu a'r 'Datganiadau o Gyfrifoldebau' a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) na'r archwilydd penodedig, lle y bo'n gymwys, mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd parti perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n gymwys, ei archwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk

# Crynodeb

1. Mae'r Llythyr Blynyddol hwn (y Llythyr) yn nodi'r negeseuon allweddol sy'n deillio o waith archwilio ac arolygu a wnaed dros y 12 mis diwethaf. Mae'n rhoi crynodeb blynyddol o ganfyddiadau a chasgliadau ein gwaith ni a gwaith y Tîm Asesu Cymheiriaid i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod).
2. Mae casgliadau'r Archwilydd Penodedig ar gyfrifon yr Awdurdod yn gadarnhaol ar y cyfan, fel y nodir ym mharagraffau 5 i 20.
3. Daeth y Rheolwr Cydberthynas i'r casgliad bod yr Awdurdod Tân ac Achub wedi gwneud cynnydd o ran mynd i'r afael ag amrywiaeth o risgiau a bellach mae angen iddo fynd i'r afael â meysydd blaenoriaeth y cytunwyd arnynt ac a nodir yn Asesiad Risg ar y Cyd eleni.
4. Mae Atodiad 1 yn nodi rolau'r Archwilydd Penodedig a'r Rheolwr Cydberthynas.

# Mae'r Awdurdod wedi cydymffurfio â'r gofynion o ran cyflwyno adroddiadau ariannol a chofnodi gwelliant o ran perfformiad

## Roedd gan yr Awdurdod drefniadau priodol i weinyddu a chyflwyno adroddiad ar faterion ariannol a sicrhau gwerth am arian yn ei ddefnydd o adnoddau yn 2008-09

5. Cyfrifoldeb yr Awdurdod yw:
    - rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion ac i sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
    - cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
    - paratoi Datganiadau Ariannol yn unol â gofynion perthnasol;
    - sefydlu ac adolygu trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau; a
    - darparu gwybodaeth i Lywodraeth y Cynulliad/Trysorlys EM sydd ei hangen i greu Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan.
6. Mae'r Cod Ymarfer Archwilio ac Arolygu (y Cod) yn ei gwneud yn ofynnol i mi:
    - ddarparu barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
    - adolygu trefniadau'r Awdurdod i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau; a
    - chyhoeddi tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r broses o archwilio'r cyfrifon.
7. At hynny, rwy'n adolygu ffurflenni ac yn cyflwyno adroddiadau arnynt, gan gynnwys Ffurflen Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan a baratowyd gan yr Awdurdod.
8. Cyhoeddais dystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o'r cyfrifon wedi'i gwblhau ar 29 Medi 2009.

### Paratowyd Datganiad Cyfrifon 2008-09 yn unol â gofynion statudol ac mae'n rhoi darlun teg o sefyllfa ariannol a thrafodion yr Awdurdod

9. Mae'r Datganiad Cyfrifon yn ffordd hanfodol i'r Awdurdod roi cyfrif am y modd y mae'n gwarchod yr adnoddau sydd ar gael iddo a'i berfformiad ariannol wrth ddefnyddio'r adnoddau hynny.
10. Ar 29 Medi 2009 cyflwynwyd barn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifyddu gennyf.

### Ni nododd archwiliad o systemau ariannol pwysig yr Awdurdod unrhyw wendidau perthnasol mewn rheolaeth fewnol, ond ceir meysydd lle mae angen gwelliant parhaus

11. I grynhoi, mae'r gwelliannau gofynnol, a nodir yn fanylach gyda'r ymatebion rheoli yn Adroddiad Safon Archwilio Ryngwladol 260, fel a ganlyn:
    - adolygiad manwl o ddyraniad gwariant i gyfalaf;
    - dylid nodi a rhoi cyfrif am symiau a gedwir yn ôl mewn contractau yn rheolaidd;
    - dylid dyrannu gwariant cyfalaf i orsafoedd tân i'r orsaf y maent yn ymwneud â hi yn brydlon;
    - dylai Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy gadw contract cyfredol ar gyfer darparu gwasanaethau ariannol; ac
    - nid yw'r dyddlyfrau wedi'u rhifo mewn trefn ac felly mae angen cynnal proses adolygu effeithiol.

### Roedd gan yr Awdurdod drefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau yn 2008-09

12. Mae'r meini prawf a ddefnyddiais i asesu trefniadau'r Awdurdod ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau yn ystod 2008-08 yn Atodiad 2. Mae fy adroddiad yn Atodiad 3.
13. Daethom i'r casgliad, ar gyfer 2008-09, fod gan yr Awdurdod drefniadau boddhaol ar waith i'w helpu i gyflawni ei gyfrifoldeb i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau.

## Mae Cynllun Gwella 2009-10 yr Awdurdod yn bodloni gofynion statudol ac yn rhoi darlun cytbwys o'i berfformiad yn ystod 2008-09

14. O dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1999 a chanllawiau dilynol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y Cynulliad, mae'n rhaid i'r Awdurdod gyhoeddi ei Gynllun Gwella erbyn 31 Hydref bob blwyddyn.
15. Mae'n ofynnol i mi ystyried a yw'r Cynllun Gwella wedi'i baratoi a'i gyhoeddi yn unol â gofynion a chanllawiau statudol a chyflwyno adroddiad ar fy nghanfyddiadau, yn cynnwys adroddiad ar ôl cwblhau'r Asesiad Risg ar y Cyd, fy archwiliad o Ddangosyddion Perfformiad yr Awdurdod ac adroddiadau ar ei drefniadau mesur perfformiad.
16. Nodir cyfrifoldebau manwl, cwmpas ein gwaith a'r dystysgrif archwilio yn Atodiad 4.
17. O dan adran 7 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1999, mae'n ofynnol bob blwyddyn i mi, fel Archwilydd Penodedig, mewn perthynas â chynllun gwella'r Awdurdod, argymell a ddylai'r Archwilydd Cyffredinol gynnal arolygiad o'r Awdurdod o dan adran 10A o'r Ddeddf. Mae hefyd yn ofynnol bob blwyddyn i mi argymell a ddylai Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddyd o dan adran 15 o'r Ddeddf. Mae fy argymhellion yn Atodiad 5.

18. Nid yw'r Awdurdod wedi casglu data na chyflwyno adroddiad arno o ran tri Dangosydd Strategol Cenedlaethol ar gyfer 2008-09 oherwydd diffyg system i gofnodi'n awtomatig y nifer uchel o asesiadau risg diogelwch tân yn y cartref a gynhaliwyd ac i gofnodi eu lleoliadau yn gywir.

19. Mae angen i'r Awdurdod fynd i'r afael â bylchau yn ei drefniadau ar gyfer casglu a dilysu gwybodaeth am berfformiad yn y meysydd hyn ar gyfer y dyfodol ac mae'n ceisio cyfarwyddwyd pellach ar hyn o bryd gan Lywodraeth y Cynulliad ar gasglu rhai o'r dangosyddion hyn a chyflwyno adroddiadau arnynt.

20. Mae'r Awdurdod ond wedi pennu targedau ar gyfer 2009-10 o ran dangosyddion y mae o'r farn eu bod yn ymwneud â meysydd gwasanaeth â blaenoriaeth. Er y gall hyn ddarparu ffocws ar gyfer y meysydd blaenoriaeth, dylai'r Awdurdod ystyried pennu targedau ar gyfer o leiaf pob Dangosydd Strategol Cenedlaethol i alluogi cymharu data rhwng Awdurdodau Tân eraill Cymru.

# Mae'r Awdurdod wedi gwneud cynnydd o ran mynd i'r afael ag amrywiaeth o risgiau a bellach mae angen iddo fynd i'r afael â meysydd blaenoriaeth y cytunwyd arnynt ac a nodir yn Asesiad Risg ar y Cyd eleni

## Mae'r Awdurdod wedi gwneud cynnydd o ran lleihau lefelau'r risg weithredol a nodwyd gan y Tîm Asesu Cymheiriaid ac mae'n gweithio i wella ei ymateb gweithredol

21. Mae'r Awdurdod wedi cwblhau Asesiad Risg ar y Cyd o'i wasanaethau a'i swyddogaethau corfforaethol, ac wedi cytuno arno gyda'i archwilwyr a'r Tîm Asesu Cymheiriaid. Cyflwynasom adroddiad ar ganlyniadau'r Asesiad Risg ar y Cyd i'r Awdurdod ar 15 Mehefin 2009.

22. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, adolygodd y Tîm Asesu Cymheiriaid y cynnydd a wnaed gan y Gwasanaeth gyda 19 o'r risgiau gweithredol a amlygwyd yn adroddiadau blaenorol y Tîm Asesu Cymheiriaid. Casglodd y gwaith bod 'cyflogeion Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn broffesiynol ac yn frwdfrydig. Roedd y personél wedi croesawu'r newidiadau diweddar ac wedi cefnogi ymagwedd y Gwasanaeth tuag at Ddiogelwch Tân Cymunedol.'

23. Roedd y meysydd allweddol o gynnydd y cyflwynwyd adroddiad arnynt gan y Tîm Asesu Cymheiriaid yn cynnwys:
    - y cynnydd a wnaed o ran darparu adnoddau ar gyfer argymhellion Grŵp Gorchwyl y Prif Swyddog Tân a'u gweithredu; mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi cyfrannu at adolygiad dilynol y Prif Swyddog Tân o argymhellion y Grŵp Gorchwyl fel rhan o'n menter Ffyrdd Callach o Weithio;
    - mae'r Gwasanaeth wedi symud yn llwyddiannus i Ganolfan Reoli ar y Cyd gyda Heddlu Gogledd Cymru; roedd y symudiad hwn yn cynnwys mabwysiadu systemau symud a chyfathrebu newydd a bellach gall y Gwasanaeth ddangos gwell cadernid mewn perthynas â swyddogaethau craidd yr Ystafell Reoli;
    - gwnaed buddsoddiad sylweddol i leddfu effeithiau Gwrthdrawiadau Traffig ar y ffordd, gan gynnwys mabwysiadu Strategaeth Gwrthdrawiadau Traffig ar y Ffordd ffurfiol i helpu'r gwasanaeth i gyflawni cyfrifoldebau'r Awdurdod fel rhan o'r Bartneriaeth Gwrthdrawiadau Traffig ar y Ffordd; a'r
    - broses o fonitro polisïau gweithredol a'u rhoi ar waith, gan gynnwys ymweliadau â gorsafoedd a monitro gweithredol i asesu a gwella cydymffurfiaeth.

24. Nodwyd Meysydd i'w Datblygu ar gyfer pob maes risg yn adroddiad y Tîm Asesu Cymheiriaid. Ymhlith y rhain roedd:
    - mynd i'r afael â hyfforddiant pellach o ran Trefniadau Brys y Gwasanaeth Tân ar gyfer aelodau'r tîm a darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth ar gyfer aelodau allweddol o staff;

- ailgynnull y Grŵp Gorchwyl er mwyn adolygu cynnydd a llunio adroddiad newydd gyda chamau gweithredu ategol;
- cyflawni adolygiad o hyfforddiant Dimensiwn Newydd i sicrhau cymhwysedd parhaol criwiau a rheolwyr gweithredol o ran trin y cyfarpar hwn (cyfarpar a ddarperir i wella gallu'r gwasanaeth i ddelio â digwyddiadau mawr megis llifogydd ar raddfa fawr); ac
- adolygiad o'i weithdrefnau Rheoli arbennig ar ôl symud i'r Ganolfan Reoli ar y Cyd.

## Mae'r Awdurdod wedi gwneud cynnydd o ran lleihau'r lefel o risg a nodwyd yn yr Asesiad Risg ar y Cyd diwethaf

25. Yn dilyn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar drefniadau craffu ac Adolygiad Cyfansoddiadol, penderfynodd yr Awdurdod greu Pwyllgor Archwilio newydd a ddaw i rym yn 2009-10. Y Pwyllgor sydd â'r brif rôl o archwilio a chraffu mewn pedwar prif faes:
    - llywodraethu;
    - rheoli ariannol a rheoli adnoddau;
    - rheoli risg a sicrwydd; a
    - pherfformiad.
26. Bu cyfranogiad cryf gan Aelodau wrth ddatblygu Cynllun Lleihau Risg newydd ar gyfer 2011-12. Cyfarfu grŵp bach o aelodau a swyddogion i ystyried y prif faterion sy'n debygol o effeithio ar y gwasanaeth. Yn groes i Gynlluniau Lleihau Risg blaenorol, nid yw'r cynllun cyfredol yn cynnwys cynllun gweithredu penodol oherwydd cytunodd yr aelodau i ddefnyddio'r cynllun gweithredu o'r Cynllun Lleihau Risg blaenorol ar gyfer 2010-11. Oherwydd bod y cynllun gweithredu hwn eisoes wedi bod yn destun ymgynghoriad, cytunodd yr aelodau i beidio ag ailadrodd yr ymarfer ymgynghori, a chytunwyd i ddatblygu'r cynllun gweithredu blaenorol yn lle hynny. Cyflwynwyd adroddiad ar gasgliadau'r grŵp hwn i'r Awdurdod llawn ym mis Mehefin 2009 a chytunodd yr Awdurdod y bydd y broses o ymgynghori ar fersiwn ddrafft y Cynllun Lleihau Risg (2011-12) yn canolbwyntio ar bedair 'egwyddor sylfaenol', sef:
    - gweithio gyda phobl ifanc;
    - y System Ddyletswydd Wrth Gefn;
    - cyd-ymateb; ac
    - effeithlonrwydd.
27. Mae'r Awdurdod yn ymgynghori â Llywodraeth y Cynulliad o ran ei ddull o fynd i'r afael â'r Cynllun Lleihau Risg.
28. Mae'r gwasanaeth wedi cymryd rhan yn astudiaeth Swyddfa Archwilio Cymru o reoli adeiladau, sydd wedi cwmpasu'r sector cyhoeddus cyfan yng Nghymru. Mae casgliad cyffredinol ein hadolygiad yn nodi bod gan y Gwasanaeth drefniadau ar waith sy'n cefnogi gwelliannau o ran effeithlonrwydd a darparu gwasanaethau i ddiwallu anghenion a bodloni disgwyliadau defnyddwyr yn yr unfed ganrif ar hugain.

29. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:
- mae cynllun rheoli asedau da a chlir ar waith;
- mae'r trefniadau rheoli perfformiad yn gweithio'n dda;
- mae gweithdrefnau cadarn i sicrhau gwerth am arian ar waith;
- mae gweithdrefnau clir i ymdrin â phrosiectau mawr a gwaith cynnal a chadw parhaus; ac
- mae enghreifftiau da o arbedion cost drwy gydweithio.

30. Mae'r Awdurdod yn ymrwymedig i ddefnyddio Cyfnewidfa Arfer Da Swyddfa Archwilio Cymru (http://www.wao.gov.uk/goodpracticeexchange.asp) fel ffynhonnell o arfer da ac mae wedi cymryd rhan mewn digwyddiadau dysgu a rennir. Rydym wedi defnyddio'r amser arfer da yng Nghynllun Rheoleiddio eleni i gyfrannu at adolygiad y Prif Swyddog Tân o'r broses o roi argymhellion y Grŵp Gorchwyl hwn ar waith o ran y lefel o farwolaethau damweiniol oherwydd tân. Mae'r adolygiad hwn yn debygol o amlygu cynnydd a wnaed i ostwng lefel y marwolaethau damweiniol oherwydd tân, ynghyd â mentrau arfer da o ran gweithio gyda phartneriaid i fynd i'r afael â'r mater cymhleth, trawsbynciol hwn. Fodd bynnag, mae canfyddiadau cychwynnol y prosiect yn awgrymu nifer o argymhellion i'w datblygu ymhellach, ac yn nodi bod angen dull cadarnach o ran rheoli perfformiad.

31. Yr her ar gyfer yr Awdurdod dros y flwyddyn nesaf yw mynd i'r afael â'r meysydd i'w gwella a nodwyd yn adroddiad y Tîm Asesu Cymheiriaid. Mae'r Awdurdod hefyd wedi bod yn ymgynghori ar ei Gynllun Lleihau Risg newydd ar gyfer 2009-10 ac mae'n disgwyl llunio adroddiad ar ganlyniadau'r ymgynghoriad hwn yn ystod yr hydref. Bydd hefyd angen i'r cynllun hwn ymateb i'r gofynion cynllunio cymunedol a nodir yn y Mesur Llywodraeth Leol newydd sy'n dod i rym o fis Ionawr 2010. Mae fersiwn ddrafft y cynllun eisoes yn cydnabod yr angen hwn drwy ganolbwyntio'n strategol ar 'gydweithio i gefnogi a datblygu cymunedau cryf'.

32. At hynny, bydd yr Awdurdod yn sefydlu ei Bwyllgor Archwilio newydd. Dros y flwyddyn i ddod, bydd angen i'r Awdurdod fonitro effeithiolrwydd y dull gweithredu hwn i sicrhau bod y pwyllgor yn cyflawni ei brif swyddogaethau fel yr amlinellwyd yn ei gylch gorchwyl.

## Atodiad 1

# Rôl yr Archwilydd Penodedig a'r Rheolwr Cydberthynas ac amcangyfrif o ffioedd

Ysgrifennwyd y Llythyr hwn gan:

- y Partner Ymgysylltu ar ran Anthony Barrett, yr Archwilydd Penodedig; a'r
- Rheolwr Cydberthynas ar ran yr Archwilydd Cyffredinol.

Mae Statud a'r Cod yn ei gwneud yn ofynnol i'r Archwilydd Penodedig wneud y canlynol:

- darparu barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau; a
- nodi a yw'r Cynllun Gwella yn cydymffurfio â gofynion statudol.

At hynny, mae'r Archwilydd Penodedig yn adolygu ac yn cyflwyno adroddiad ar geisiadau am grant a ffurflenni, gan gynnwys Ffurflen Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan, a baratowyd gan yr Awdurdod.

Mae'r Rheolwr Cydberthynas yn gweithio i'r Archwilydd Cyffredinol i geisio sicrhau bod astudiaethau a swyddogaethau arolygu'r Archwilydd Cyffredinol yn cael eu cydlynu â gwaith rheoleiddwyr perthnasol.

Nodwyd y gwaith archwilio ac arolygu a gynlluniwyd ar gyfer y flwyddyn yng Nghynllun Rheoliadol 2008-09. Ceir rhagor o fanylion am agweddau penodol ar y gwaith a gyflawnwyd yn yr adroddiadau ar wahân a gyflwynwyd yn ystod y flwyddyn.

Ar hyn o bryd, disgwylir i'r ffioedd ar gyfer 2008-09 fod yn unol â'r rheini a nodir yn eich Cynllun Rheoliadol.

## Atodiad 2

# Meini prawf ar gyfer asesu trefniadau'r Awdurdod yn ystod 2008-09 ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau

| Trefniadau rheoli perfformiad corfforaethol a rheoli ariannol | Cwestiynau ar drefniadau |
|---|---|
| **Pennu amcanion, llunio polisïau a gwneud penderfyniadau** | A yw'r Awdurdod wedi rhoi trefniadau ar waith ar gyfer pennu, adolygu a gweithredu ei amcanion strategol a gweithredol? |
| **Diwallu anghenion defnyddwyr a threthdalwyr** | A yw'r Awdurdod wedi sefydlu modd i gyfathrebu â defnyddwyr a threthdalwyr a rhanddeiliaid eraill yn cynnwys partneriaid, ac a oes trefniadau monitro i sicrhau bod negeseuon allweddol ynglŷn â gwasanaethau yn cael eu hystyried? |
| **Cydymffurfiaeth â pholisïau sefydledig** | A yw'r Awdurdod wedi rhoi trefniadau ar waith i gynnal system rheolaeth fewnol gadarn, yn cynnwys trefniadau ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau, a pholisïau a gweithdrefnau mewnol? |
| **Rheoli risgiau gweithredol ac ariannol** | A yw'r Awdurdod wedi rhoi trefniadau ar waith i reoli ei risgiau busnes o bwys? |
| **Rheoli adnoddau ariannol ac adnoddau eraill** | A yw'r Awdurdod wedi rhoi trefniadau ar waith i werthuso a gwella'r gwerth am arian y mae'n ei gyflawni yn ei ddefnydd o adnoddau? |
| | A yw'r Awdurdod wedi rhoi strategaeth ariannol, cyllidebau a rhaglen gyfalaf tymor canolig ar waith ac iddynt sail gadarn a chyda'r nod o gyflawni ei flaenoriaethau strategol? |
| | A yw'r Awdurdod wedi rhoi trefniadau ar waith i sicrhau bod ei wariant yn cyfateb i'r adnoddau sydd ar gael? |
| | A yw'r Awdurdod wedi adolygu ei weithdrefnau ar gyfer rheoli'r trysorlys, a gwneud newidiadau iddynt lle bo hynny'n briodol, o ganlyniad i'r dirywiad economaidd a natur fregus y system fancio? |
| | A yw'r Awdurdod wedi rhoi trefniadau ar waith ar gyfer rheoli a monitro perfformiad yn erbyn cyllidebau, gan gymryd camau adferol lle bo'n briodol, a chyflwyno adroddiad ar y canlyniadau i uwch reolwyr a'r Awdurdod? |
| | A yw'r Awdurdod wedi rhoi trefniadau ar waith ar gyfer rheoli ei sail asedau? |
| **Monitro ac adolygu perfformiad** | A yw'r Awdurdod wedi rhoi trefniadau ar waith ar gyfer monitro perfformiad a chraffu arno, i nodi amrywiannau posibl yn erbyn amcanion, safonau a thargedau strategol, ar gyfer gweithredu lle bo angen a chyflwyno adroddiad i'r Awdurdod? |
| | A yw'r Awdurdod wedi rhoi trefniadau ar waith i fonitro ansawdd ei wybodaeth gyhoeddedig am berfformiad, ac i gyflwyno adroddiad ar y canlyniadau i aelodau'r Awdurdod? |
| **Safonau ymddygiad priodol ac ati** | A yw'r Awdurdod wedi rhoi trefniadau ar waith gyda'r nod o hyrwyddo a sicrhau gonestrwydd a phriodoldeb wrth gynnal ei fusnes? |

Atodiad 3

# Adroddiad yr Archwilydd ar y trefniadau ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau yn ystod 2008-09

**Casgliad ar drefniadau'r Awdurdod ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2009 ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau**

**Cyfrifoldebau'r Awdurdod**

Mae'r Awdurdod yn gyfrifol am roi trefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau, ac i sicrhau stiwardiaeth a llywodraethu priodol. Mae'r Awdurdod hefyd yn gyfrifol am adolygu digonolrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau hyn yn rheolaidd.

**Cyfrifoldebau'r archwilydd**

Mae cyfrifoldeb arnaf o dan adran 17(2)(d) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus Cymru 2004, i gasglu o'm harchwiliad o gyfrifon blynyddol yr Awdurdod a gwybodaeth berthnasol arall p'un a wyf yn fodlon iddo wneud trefniadau priodol ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau. At ddibenion fy ngwaith yn y maes hwn, rwyf wedi asesu 'trefniadau priodol' yn bennaf fel trefniadau rheoli perfformiad corfforaethol a rheoli ariannol sefydliad, y diffinnir elfennau o bwys ohonynt ym mharagraff 48 o God yr Archwilydd Cyffredinol.

Cyflwynaf adroddiad os yw materion o bwys wedi dod i'm sylw sy'n fy atal rhag dod i'r casgliad bod yr Awdurdod wedi gwneud trefniadau priodol o'r fath. Wrth ymgymryd â'm gwaith, nid wyf wedi ystyried a yw'r trefniadau sydd ar waith yn cynrychioli'r holl drefniadau a allai fod ar waith. Nid yw'n ofynnol ychwaith i mi ystyried, ac nid wyf wedi ystyried fel rhan o'r agwedd hon ar fy ngwaith, effeithiolrwydd y trefniadau sydd ar waith ar gyfer sicrhau gwerth am arian yn ystod y flwyddyn a adolygir.

**Casgliad**

Mae'r casgliad canlynol yn seiliedig ar waith a gynhaliwyd fel rhan o'm harchwiliad o gyfrifon 2008-09, ynghyd ag unrhyw wybodaeth arall a ystyriwyd yn berthnasol gennyf, ac mae'n gyfyngedig i'r gwaith hwnnw. Rwyf yn fodlon bod gan yr Awdurdod drefniadau priodol ar waith yn ystod y flwyddyn i'w helpu i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau. Rwyf hefyd wedi codi materion amrywiol gyda'r Awdurdod, ac wedi gwneud argymhellion i wella ei drefniadau. Trafodir ac esbonnir y materion hyn ymhellach yn y Llythyr Blynyddol.

Anthony Barrett
Archwilydd Penodedig
29 Medi 2009

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Atodiad 4

# Archwiliad o Gynllun Gwella 2009-10

## Tystysgrif

Ardystiwn ein bod wedi archwilio Cynllun Gwella Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn unol ag adran 7 o Ddeddf 1999 a Chod yr Archwilydd Cyffredinol.

## Priod gyfrifoldebau'r Awdurdod a'r archwilwyr

O dan Ddeddf 1999 a chanllawiau statudol, mae'n ofynnol i'r Awdurdod baratoi a chyhoeddi Cynllun Perfformiad Gwerth Gorau yn crynhoi:

- ei amcanion strategol hirdymor;
- ei asesiadau o berfformiad yn ystod y flwyddyn ddiwethaf;
- y materion allweddol i'w gwella sydd i'w darparu mewn blynyddoedd i ddod; a
- manylion am ble i gael rhagor o wybodaeth, gan gynnwys gwybodaeth am gynllunio busnes.

O dan ganllawiau Llywodraeth y Cynulliad, gelwir y Cynllun Perfformiad Gwerth Gorau yn Gynllun Gwella. Mae'r canllawiau'n ei gwneud yn ofynnol i'r Cynllun gael ei gyhoeddi erbyn 31 Hydref yn y flwyddyn ariannol y mae'n ymwneud â hi, fan bellaf.

Mae'r Awdurdod yn gyfrifol am baratoi'r Cynllun ac am y wybodaeth a'r asesiadau a nodir ynddo. Dylai rhaglen waith yr Awdurdod yn y dyfodol a nodir yn y Cynllun fod yn gysylltiedig â chanlyniadau'r asesiad risg wedi'i ddiweddaru.

Mae'r Awdurdod hefyd yn gyfrifol am sefydlu systemau rheoli perfformiad a rheolaeth fewnol briodol y mae'r wybodaeth a'r asesiadau yn ei Gynllun yn deillio ohonynt ac am sicrhau ei fod yn darparu digon o allu ac adnoddau i reoli newid a gwelliant. Rhagnodir ffurf a chynnwys y Cynllun gan ganllawiau Llywodraeth y Cynulliad.

Fel archwilydd penodedig yr Awdurdod, mae'n ofynnol mi, o dan adran 7 o Ddeddf 1999, gynnal archwiliad o'r Cynllun, i ardystio fy mod wedi gwneud hynny, a chyflwyno adroddiad i nodi a wyf o'r farn bod y Cynllun wedi'i baratoi a'i gyhoeddi yn unol â'r gofynion statudol a nodwyd yn adran 6 o Ddeddf 1999 a chanllawiau statudol. Lle y bo'n briodol, mae'n ofynnol i mi argymell:

- sut y dylid diwygio'r Cynllun fel ei fod yn unol â gofynion statudol; a
- pha weithdrefnau i'w dilyn mewn cysylltiad â'r Cynllun.

Mae hefyd yn ofynnol i ni argymell:

- A ddylai'r Archwilydd Cyffredinol gynnal arolygiad o'r Awdurdod o dan adran 10A o Ddeddf 1999.
- A ddylai Llywodraeth y Cynulliad roi cyfarwyddyd o dan adran 15 o Ddeddf 1999 – er enghraifft, cyfarwyddo'r Awdurdod i ddiwygio ei Gynllun, cynnal adolygiad o swyddogaeth benodol neu gynnal ymchwiliad lleol. Ceir manylion ynglŷn â'r holl gyfarwyddiadau posibl yn Neddf 1999.

## Cwmpas yr archwiliad o'r Cynllun Gwella

Cafodd ein gwaith ei gynllunio a'i gynnal er mwyn cael yr holl wybodaeth ac esboniadau yr oeddem yn eu hystyried yn angenrheidiol er mwyn cyflwyno adroddiadau a gwneud argymhellion yn unol ag adran 7 o Ddeddf 1999.

At ddibenion ein hadroddiad, rydym wedi dehongli bod cydymffurfiaeth â'r canllawiau statudol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y Cynulliad yn y ddogfen, *Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella: Canllawiau i Awdurdodau Lleol*, yn ddigon i fodloni'r gofynion statudol o dan adran 6 o Ddeddf 1999.

Nid yw'n ofynnol i ni lunio barn ar gyflawnrwydd na chywirdeb y wybodaeth na realaeth na chyflawniad y Cynllun a gyhoeddwyd gan yr Awdurdod. Roedd ein gwaith felly yn cynnwys adolygiad ac asesiad o'r Cynllun a, lle y bo'n briodol, archwiliad ar sail prawf o dystiolaeth berthnasol, a oedd yn ddigon i fodloni ein hunain bod y Cynllun yn cynnwys y materion hynny a ragnodir mewn deddfwriaeth a chanllawiau statudol a bod y trefniadau ar gyfer cyhoeddi'r Cynllun yn cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth a'r canllawiau statudol.

Er mwyn cadarnhau a ddylem wneud argymhellion ar weithdrefnau i'w dilyn mewn perthynas â'r Cynllun, roedd ein gwaith yn cynnwys:

- adolygiad ac asesiad a, lle y bo'n briodol, archwiliad ar sail prawf o dystiolaeth berthnasol i ddigonolrwydd y systemau sydd ar waith gan yr Awdurdod ar gyfer casglu a chofnodi gwybodaeth benodedig am berfformiad; a
- phrofi Dangosyddion Perfformiad Gwasanaeth Cenedlaethol penodol ar sail meini prawf a nodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol.

Ni ellir dibynnu ar y gwaith a wnaed gennym er mwyn cyflwyno adroddiadau a gwneud argymhellion yn unol ag adran 7 o Ddeddf 1999 i nodi pob gwendid neu gyfle i wella.

Cafodd ein gwaith ei gynllunio er mwyn casglu digon o dystiolaeth i fodloni ein hunain bod y Cynllun yn cynnwys y materion hynny a ragnodir mewn deddfwriaeth a chanllawiau statudol a bod y trefniadau ar gyfer cyhoeddi'r Cynllun yn cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth a'r canllawiau statudol.

Atodiad 5

## Argymhellion i'r Archwilydd Cyffredinol a Gweinidogion Cymru

O dan adran 7 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1999, mae'n ofynnol bob blwyddyn i mi, fel Archwilydd Penodedig, mewn perthynas â chynllun gwella'r Awdurdod, argymell a ddylai'r Archwilydd Cyffredinol gynnal arolygiad o'r Awdurdod o dan adran 10A o'r Ddeddf. Mae hefyd yn ofynnol bob blwyddyn i mi argymell a ddylai Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddyd o dan adran 15 o'r Ddeddf.

Ni nodais yr angen ar gyfer unrhyw archwiliadau statudol yn 2008-09, ac felly argymhellais na ddylai'r Archwilydd Cyffredinol gynnal unrhyw archwiliadau o'r Awdurdod. Hefyd, argymhellais na ddylai Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddyd o dan adran 15 o'r Ddeddf ar hyn o bryd.

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ
Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660
E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk